# Y BIGWN

CYF. 34 RHIF 6 HYDREF 2022 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd



## Tymor y Cymdeithasau yn ail gychwyn



Dilys, Beti , Rhiannwen ac Edith - Y Gymdeithas Gymraeg tudalen 6



Gwilym yn arddangos ei waith crefft—mwy tudalen 4

AELWYD DYFFRYN CLWYD

Hanes tudalen 8

## Aur i Ddinbych yn Blodeo



Lluniau a hanes tudalen gefn

Grazia Italia
Tud 3















Hynt a helyntion
Leah Mai Thomas.
Tud. 8













## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifion Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifionjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

**'Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru'**


CYMRAEG

**Golygydd Mis Tachwedd Morgan Cordiner**

# Gair gan y Golygydd

## Grazia Italia!

Golygfeydd godidog, bwyd da a chwmni gwell. Dyma ychydig o flas anturiaethau Maiwenn a fi yn Yr Eidal dros wyliau'r haf.

Dechreuodd ein hantur gan gychwyn am Fanceinion am 4:30 ar fore Gwener. Er y pryder o fod mewn Maes Awyr wedi'r cyfnod clo, a'r holl broblemau a oedd yn cael eu portreadu ar y cyfryngau aeth popeth fel 'watch'.

Taith fer o dair awr o Fanceinion i Naples a chyrraedd oddeutu amser cinio cyn gyrru ar hyd lonydd cul ar hyd y arfordir i Sorrento ble buom yn aros mewn gwesty am 5 noson.

Mae'r lluniau yn cwmpasu'r cyfan. Ardal llawn harddwch, môr clir a thirwedd ffrwythlon.

Bu'r dwy ohonom yn gwneud cryn dipyn o waith paratoi ac ymchwilio cyn mynd er mwyn gwneud y mwyaf o'n hamser yno. Amserlen lawn! Doedd dim amser hyd yn oed i orwedd o flaen pwll y gwesty! Crwydro strydoedd a dysgu ychydig am ddiwylliant a hanes yr ardal oedd ein bwriad heb anghofio cyfle i nofio yn y môr a chael bwyta bwydydd (gnocchi) a diodydd traddodiadol (lemoncello) yr ardal.

Aethom ar daith i Pompeii a chael tywysydd yn ein harwain drwy'r adfeilion. Profiad bythgofiadwy oedd hyn ac rwyf yn argymell unrhyw un i fynd yno ond rhaid cael tywysydd oherwydd ei fod yn lle anferthol. Wedi hynny aethom i fyny Mount Vesuvius, sef y llosgyfyndd a ffrwydrodd gan orchuddio Pompeii a lludw gan ladd miloedd o bobol. Dim ond hanner awr o waith cerdded gan fod y bws yn eich tywys yn uchel iawn i fyny'r llosgfynydd. Syndod mawr oedd gweld cymaint o dai wedi eu hadeiladu ar y llosgyfynydd yn enwedig gan ei fod yn dal i ffrwydro.

Ar ein trydydd diwrnod teithiodd y ddwy ohonom ar fws ar hyd lonydd troellog a chreigio yr Amalfi tuag at Postinio. Cinio bendigedig ar lan y môr a thorheulo wrth draeth creigiog y pentref. Cyfle arbennig i werthfawrogi crefft adeiladwyr y tai ar graig uwch y môr. Roedd tipyn o waith cerdded i lawr at y traeth felly esgidiau call!

Mentro allan dros y lli y gwnaethom ar ein pedwerydd diwrnod gan fwynhau moethusrwydd ynys Capri. Taith arbennig o amgylch yr ynys yn gyntaf ar gwch a chael y cyfle i weld y lagwns enwog o amgylch yr ynys a nofio yng nghanol y môr cynnes. Taith ar 'cabal' i fyny pwynt uchaf yr ynys i weld y golygfeydd trawiadol cyn cael cyfle i fwynhau a chrwydro strydoedd gyda siopau moethus megis Channel, Gucci (siopa gyda'n llygaid yn anffodus) cyn ein taith yn ôl i Sorrento.

Y diwrnod olad i Amalfi… un o'r pentrefi pella yr arfordir, ac oedd mi oedd o'n bell. Dros awr a hanner o daith ar fws anghyffyrddus. Bu'r ddwy ohonom yn crwydro strydoedd gan fwynhau gweld atyniadau pwysig y dref- yr Eglwys a'r ffatri bapur hynafol, cael cyfle i wneud papur gan mai dyna pam oedd Amalfi yn enwog ers talwm. Mentro i lawr at y traeth yn y prynhawn i dorheuol ac oeri yn y môr.

Anodd iawn yw cwmpasu y cyfan mewn ychydig eiriau. Gwyliau bythgofiadwy… ymlaen i'r nesaf. **Martha**



## Cymdeithas y Chwiorydd Eglwys



Dyma gyfarfod cyntaf Cymdeithas y Chwiorydd wedi'r pandemig. Hyfryd oedd cael cwmni rhai o'r dynion atom. Croesawyd pawb gan Dilys ac fe wnaeth hi a Nancy ein harwain mewn addoliad gydag emyn, darlleniad a gweddi.
Cafwyd amser diddorol iawn yng nghwmni Gwilym Davies yn trafod ac yn arddangos ei waith gyda choed amrywiol. Hobi yw hyn i Gwilym ond yn wir roedd ei waith cystal os nad gwell na'r hyn a welwn mewn ambell i siop grefftau. Cafodd pawb amser i edrych yn iawn ar yr holl eitemau a gwn fod ambell un wedi cael bargen!!!!!!
Diolchodd Lis ar ein rhan i Gwilym.
I orffen cafwyd paned a sgwrs ac fe aeth pawb gartref wedi mwynhau'r cyfarfod ac yn edrych ymlaen at y nesaf.
**Carolyn**







**Tŷ Te a Delicatessen**
**Coronation Buildings,**
**Lôn Gefn,**
**Dinbych, Ll16 3TE**
**01745 816576**


## Llond castell o ddrama i deuluoedd



Bu i Gastell Dinbych gael ei droi yn theatr awyr agored ar nos Wener, 12 Awst, er mwyn cynnal drama gomedi dychanol llawn rhialtwch i'r teulu i gyd am un o gymeriadau hanesyddol amlwg ein gwlad.
**Yr Arglwydd Rhys - Y Cyrn yn erbyn y byd - A Oes Medd?** oedd teitl y ddrama deithiol newydd sbon gan gwmni theatr Mewn Cymeriad am un o arwyr y Deheubarth - Rhys ap Gruffydd. Roedd digon o densiwn teuluol; colli ac ennill tir; barddoniaeth fydd neb yn deall…ond s'dim ots am hynny achos ROEDD YNA GADEIRIO!
Cychwynnodd y daith yn Abaty Ystrad Fflur yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol.
Cafodd y ddrama ei hysgrifennu a'i chyfarwyddo gan Janet Aethwy, a'r caneuon eu cyfansoddi gan Mei Gwynedd a'r bardd Aneirin Karadog, a'r cast oedd Cadi Beaufort, Dyfed Cynan, Sion Emyr a Ffion Glyn.
Dyma'r tro cyntaf i gwmni Mewn Cymeriad greu sioe deuluol. Wedi'i sefydlu bron i ddeng mlynedd yn ôl, mae'r cwmni wedi darparu llu o sioeau rhyngweithiol un cymeriad, i ysgolion cynradd drwy Gymru gyfan.
Meddai Eleri Twynog, Cyfarwyddwr a Sylfaenydd Mewn Cymeriad: "Ein bwriad oedd cyflwyno darn o hanes Cymru, gall y teulu cyfan ei fwynhau, a hynny yn yr awyr agored – fel yr hen anterliwtiau slawer dydd."
Yn ôl Ruth Williams o Fenter Iaith Sir Ddinbych, a gynorthwyodd gydag hyrwyddo'r sioe yn lleol: "Rydym wedi cydweithio â chwmni Mewn Cymeriad droeon, ac wedi gweld hanes Cymru'n dod yn fyw i blant mewn ffordd hwyliog, hawdd ei deall. Fedrwn ni ddim argymell ddigon pa mor bwysig yw hi i ysgolion a rhieni edrych ar arlwy Mewn Cymeriad wrth gyflwyno hanes i'w plant, er mwyn sicrhau bod dinasyddion y dyfodol yn deall mwy am yr hyn sy'n effeithio bywyd yma 'Nghymru'.



# O'R LLYFRGELL

Os nad ydych wedi ymweld â'ch Llyfrgell leol ers sbel, galwch mewn i weld beth sydd i'w gynnig. Bydd croeso cynnes. Rydym wedi ail ddechrau cael papurau newydd yma, ond wrth gwrs gallwch barhau i'w derbyn am ddim yn syth i'ch dyfais drwy Pressreader.

**Drysau Agored Dinbych 2022**

Roedd y Llyfrgell yn rhan o'r digwyddiad eleni ddiwedd Medi a chafwyd ymateb ardderchog gyda phrysurdeb amlwg yn y dref a hefyd yma yn y Llyfrgell. Cawsom weithdai celf llwyddiannus ar gyfer y plant dros y penwythnos wedi eu trefnu gan Fenter Iaith Sir Ddinbych, gyda'r plant yn creu campweithiau wedi eu seilio ar adeiladau hanesyddol y dref.

**Sir Ddinbych yn Gweithio**

Bydd staff Sir Ddinbych yn Gweithio ar gael yn Llyfrgell Dinbych ar Ddydd Llun cyntaf ag olaf bob mis 2.00-4.00p hyd at Ddydd Llun cyntaf fis Rhagfyr.

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod mewn, neu mewn perygl o fod mewn tlodi ac os hoffech eu helpu nhw i gael gwaith, neu i wneud cynnydd yn eu gwaith, gallwn ni helpu drwy gynnig cymorth ac arweiniad gyda;

- Cymhelliant a hunan hyder
- Cyngor ac arweiniad un i un
- Cyfleoedd hyfforddi
- Gwirfoddoli
- Ysgrifennu CV
- Profiad Gwaith
- Technegau Cyfweliad
- Gwneud Cais am Swydd
- Cyllid personol Cyfrifoldebau Gofalu










CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# BORE COFFI CYMDEITHAS GYMRAEG DINBYCH









Wedi ymgynghoriad, penderfynwyd o fwyafrif i barhau hefo'r bore coffi ar Sadwrn, Medi 17eg er i hynny fod cyn angladd y diweddar Frenhines ac o fewn y cyfnod o alaru cenedlaethol swyddogol.

Ar y bore, cafwyd digwyddiad digon boddhaol hefo stondinau gan y Fenter Iaith a'r Bigwn (hefo hen gopiau i'w gweld) a hefyd Telynau Tandderwen yn bresennol a rhai o'r plant a ddaeth i'r bore yn cael sesiwn blasu am ddim o ran canu'r delyn.

Edith Jones, Rhianwen Williams, Dilys Davies a Beti Jones oedd yn gofalu am y baned hefo'r trysorydd Erfyl Williams yn brysur hefo'r raffl a'r ysgrifennydd Dilwyn Jones yn derbyn ticedi a thaliadau mynediad ac yn gwerthu rhaglenni aelodaeth y tymor newydd. Diolchwyd gan lywydd y Gymdeithas, Martha Cordiner.

Rhwng gwerthiant rhaglenni, ticedi a thaliadau mynediad, y raffl a rhoddion yr oedd £455 i fynd i'r banc.

Yr oeddem wedi gobeithio cyflwyno cerdyn diolch a rhodd i'n cyn-drysorydd Tom Williams ond, gan nad oedd yn bresennol y tro yma, aethpwyd a'r cerdyn a'r rhodd iddo yn ei gartref.

Bydd ein cyfarfod nesaf, sef cyfarfod agoriadol ein tymor newydd, ar nos Wener Hydref 7fed yn Festri Capel y Fron am 7, sef Noson yng Nghwmni Geraint Lovgreen.

DILWYN JONES

<u>**RHAGYSBYSEB**</u>

**CYNGERDD MAWREDDOG**

**Nos Sadwrn**

**Chwefror 18fed 2023**

**Neuadd y Dref, Dinbych**

**Côr Ieuenctid Dyffryn Clwyd**

**Côr Meibion Bro Aled**

**a Glyn Owens**

Elw at elysennau lleol ac Wcrain

Trwy law Clwb Rotary Dinbych

Manylion llawn nes ymlaen

*** <u>Nodwch y dyddiad</u> ***

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

**www.sirddinbych.gov.uk**

**E:mark.young@sirddinbych.gov.uk**

# GWYNETH CLWYD WILLIAMS

**TEYRNGED**

Teulu o Fwtseriaid o dref Dinbych oedd y Dafisiaid. Teulu y dewisodd Prifardd "Ymdawiad Arthur" Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902, yr Athro T. Gwynn Jones, fod yn rhan ohono, trwy briodas. Un o ddwy o ferched Thomas Owen Davies a'i briod Margaret, Bryn Hyfryd, Beacon's Hill, oedd Gwyneth Clwyd. Yn y dref honno y magwyd Gwyneth a'i chwaer, Eluned. Yn y dref honno y cafodd y ddwy eu haddysg, yn Ysgol Frongoch ac yn yr Ysgol Ramadeg. Yn y dref honno y byddai'r teulu yn addoli – yn y Capel Mawr. O'r dref honno yr aeth Gwyneth i'r Coleg Normal ym Mangor i'w hyfforddi fel athrawes plant Cynradd.

Yn ôl adre i Ddinbych yr aeth Gwyneth ar derfyn yr astudio ym Mangor, yn athrawes yn Ysgol y Rhewl yn ymyl Rhuthun. Mr. Davies oedd y Prifathro. Miss Davies oedd yr athrawes arall hefyd. A Gwyneth Clwyd Davies, y pryd hynny, yn athrawes ifanc frwdfrydig. I'r plant, Davies oedd pawb! 'Doedd dim sôn y pryd hynny am gynorthwy-ydd Dosbarth. Y Miss Davies ieuanc â gofal am ddosbarth o 30 o blant. Symud wedyn i Ysgol Tan-y-fron, a mynd yno drwy eira mawr yn y Gaeaf!

Fel y dywedais i, aelodau yn y Capel Mawr oedd y teulu, a Gwyneth yn aelod o'r Pwyllgor Bugeiliol – Pwyllgor a fyddai'n goruchwylio galwad i ddarpar Weinidogion y Capel Mawr – Pwyllgor holl-bwysig o dan yr hen drefn, a'r drefn gywir, Gyfundebol! Yn y cyfnod yma hefyd y daeth Gwyneth yn aelod o Glwb Ffermwyr Ieuainc Nantglyn. Cystadlu yn Sioe Nantglyn a sioeau lleol eraill. Aelod o gwmni drama'r Clwb a pherfformio sawl drama. Cyfarfod Evan Lloyd Williams, a phriodi Lloyd yn 1977 ac ymgartrefu ym Mron y De yn Abergele. Gadael yr ystafell ddosbarth i ofalu am gyfrifon busnes ei gŵr, Lloyd. Coron ar eu huniad cariadus oedd geni Esyllt yn 1979. Ond daeth Ionawr a'i farrug oer, a bu farw Lloyd, dan amgylchiadau trasig iawn yn 1985, yn 35 oed.

Yn 1992 y daethum i adnabod Gwyneth. Gwraig annwyl, ddifyr ei sgwrs, ac un benderfynol, yn yr ystyr orau oedd hi. Bu'n fam ac yn dad i Esyllt. Agor drysau Bron y De i ymwelwyr (*Bed and Breakfast)* gan gychwyn adeg Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl. Arwydd o gynhesrwydd y croeso oedd fod yr ymwelwyr yn dychwelyd, a'r ymwelwyr yn troi'n gyfeillion.

Yma, i Fynydd Seion, y byddai Gwyneth ac Esyllt yn dod i addoli. Bu Gwyneth yn athrawes Ysgol Sul am rai blynyddoedd. Bu Gwyneth hefyd yn gweithio'n ddiflino dros Ymgyrch Plentyn y Nadolig – *Operation Christmas Child*. Pe byddech chi'n ymweld â Bron y De dros y cyfnod hwnnw, fe fyddai'n anodd i chi fynd i fewn i'r lolfa oherwydd y pentwr bocsys esgidiau yn y cyntedd – o'r llawr hyd y to! Fe fyddai Santa Clôs ei hun wedi cael cryn drafferth. Yn ddiweddarach y newidiwyd y drefn dan gynllun *Teams4U.*

Paratoi a llenwi cannoedd o focsys esgidiau, i blant o wahanol oedran, yn fechgyn a merched. 'Fyddai rhoi doli mewn bocs i fachgen ddim yn gwneud y tro o gwbl! A thîm da o Fynydd Seion yn gefn ac yn gynorthwy i Gwyneth. Roedd Gwyneth â'i bryd ar wneud hynny eto eleni. Ond 'wnaeth y Drefn ddim caniatau hynny!

Diddordebau eraill Gwyneth oedd gwau a chrôsio a choginio a theithio o fewn gwledydd Prydain. Fe fyddai mam Gwyneth, Margaret, yn ymuno â nhw ar y dechrau – i'r Alban ac Iwerddon. A ble gwell i weld blwyddyn newydd yn gwawrio na Chaeredin, a phrofi Hogmanay go iawn!

Bu Gwyneth yn ofalus ei gofal o Esyllt. Bu Esyllt hefyd yn ofalus ei gofal o'i mam. A dwyn geiriau Esyllt – roedd hi'n fam ac yn ffrind! Rydan ni'n cydymdeimlo efo ti Esyllt, ac yn cydymdeimlo hefyd ag Eluned a'i theulu.

Mae T. Gwynn Jones wedi disgrifio pen y daith i bob un ohonom ni:

Yno mae tân pob awen a gano,
Grym, hyder, awch pob gŵr a ymdrecho;
Ynni a ddwg i'r neb fynn ddiwygio,
Sylfaen yw byth i'r sawl fynn obeithio;
Ni heneiddiwn tra'n noddo – mae gwiw foes
Ac anadl einioes y genedl yno.

Parch. Ifor ap Gwilym, Abergele

Cyflwynwyd y Deyrnged hon yng ngwasanaeth Angladd **Gwyneth Clwyd** yn Eglwys Mynydd Seion, Abergele,
Ddydd Iau, 25ain o Awst, 2022

sir ddinbych denbighshire County Council
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd,Cartwnydd
Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint
Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

# Hynt a helyntion Leah Mai Thomas.

Yn sicr, does yna ddim un diwrnod tawel fel Swyddog Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus yn Hamdden Sir Ddinbych. Gyda 7 bwyty, 3 atyniad a 7 canolfan hamdden ar draws Sir Ddinbych, mae mwy na digon i gadw'r tair ohonom ni o fewn y tîm marchnata ar flaenau ein traed. Yr Haf yw ein tymor prysuraf, gyda thwristiaid yn ymweld â pharc-dŵr SC2 y Rhyl, penwythnos y Sioe Awyr Frenhinol, partïon hafaidd y Cwt Traeth, Nova a'n cyngherddau awyr agored yn Arena Digwyddiadau'r Rhyl – eleni croesawom berfformiadau gan Beverley Knight, band James, Tom Grennan, Ella Henderson a Jack Savoretti.

Pwrpas fy swydd i yn y bôn yw cael pobl i fynychu'r digwyddiadau arbennig hyn i greu arian ac elw ac i hybu Sir Ddinbych fel lleoliad o ddewis ar gyfer twristiaid a thrigolion, sydd wedi profi'n anodd yn y gorffennol, gyda'r gair bach annifyr sy'n dechrau' hefo 'C' ac yn gorffen efo 'ofid'. Ond, erbyn heddiw, mae llwyddiant ein digwyddiadau eleni a'r miloedd o bobl sydd wedi mynychu'r rhain wedi gwarantu ni nad oes angen poeni pellach am hynny.

Eleni oedd fy mhrofiad cyntaf o weithio ar y Sioe Awyr Frenhinol yn y Rhyl. Fe wnaethom wario misoedd yn paratoi ar gyfer y digwyddiad penigamp yma a gafodd ei gynnal dros benwythnos gŵyl y banc ym mis Awst. O ddylunio rhaglenni, creu hysbysebion ar-lein, ysgrifennu datganiadau i'r wasg, darllediadau byw ar y diwrnod ar ein cyfryngau cymdeithasol a llawer mwy!

Fel rheol, rydym yn dechrau cynlluniau marchnata ar gyfer digwyddiad tri mis o flaen llaw – er nad yw'r rheol hon yn gallu cael ei dilyn bob amser, oherwydd rhesymau anrhagweladwy ayyb! Ar hyn o bryd rydym yn brysur yn paratoi ar gyfer digwyddiadau'r Nadolig, yn bennaf Panto yn Theatr y Pafiliwn sydd yn rhedeg dros dair wythnos ym mis Rhagfyr, partïon Nadolig a'r flwyddyn newydd ym mwyty 1891, sesiynau Nadoligaidd Ninja TAG a bwydlenni a chynigion Nadolig newydd ar gyfer ein bwytai – felly digonedd i fynd â ni i 2023, sydd yn ddychrynllyd. Ble mae 2022 wedi mynd tybed?! I weld y digwyddiadau cyffrous sydd gennym ar y gweill, ewch i'n tudalen Facebook @HamddenSirDdinbych.



# Côr Aelwyd Dyffryn Clwyd

Wel, mae'r côr wedi cael ufflon o flwyddyn os ti'n gofyn i mi!

A minnau'n aelod newydd i'r Aelwyd, o ran ardal a'r côr, roedd hi'n braf iawn cael bod yn rhan o lwyddiant ysgubol y côr yn Eisteddfod yr Urdd a hithau ar ein hôm tyrff yn Ninbych! Roedd cael canu ar lwyfan proffesiynol ar ôl dros ddwy flynedd o beidio yn wefreiddiol a d'eud y lleia'! Roedd ennill, prif wobr yr Eisteddfod yn uchafbwynt personol i mi a dwi'n meddwl 'y mod i'n siarad ar ran pawb yn y côr wrth ddweud ei fod wedi bod yn uchafbwynt i ni gyd! Roedd ennill yn ei hun yn fraint ond roedd cael bod yn gôr swyddogol Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad ym Mirmingham yn fraint o'r mwya'! Roedd taith Birmingham yn anhygoel! Côr o gefngwlad Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad - pwy feddyliodd!

Ers yr Eisteddfod a Birmingham, rydym wedi gwneud amryw o gyngherddau gan gynnwys Noson Lawen, Dechrau Canu Dechrau Canmol, Priodas cwpwl lleol i enwi dim ond ychydig! Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael ein gwahodd i amryw o gyngherddau a hynny'n lledaenu'n enw ni ar hyd a lled y dyffryn, os nad Cymru gyfan!

Rydym bellach yn brysur paratoi tuag at ein cyngerdd cyntaf fel Aelwyd! Rydym ni'n cynnal noson er cof am gyn-aelod, ond fwy na hynny, ffrind annwyl, Gruff. Er na ches y pleser o 'nabod Gruff yn bersonol, mae'r hyn sydd gan aelodau'r Aelwyd i'w ddweud amdano yn profi pa mor uchel ei barch yr oedd o ymysg teulu a ffrindiau ac felly, wrth i ni baratoi tuag at y gyngerdd, rydym ni wir yn gobeithio ein bod ni'n gwneud sioe dda ohoni i ni gael cofio am Gruff yn y ffordd ora' bosib!

Rydym ni'n edrych 'mlaen at flwyddyn yr un mor brysur eleni ac hefyd yn edrych 'mlaen at groesawu unrhyw aelodau newydd i'n plith! Mae croeso cynnes iawn i'w cael gan griw Dyffryn Clwyd…coeliwch chi fi!



Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO


Dilynwch ni ar facebook flickr

Cwmulus https://cwmulus.org/

**Prysurdeb yr haf**

Roedd drysau amgueddfa Gwefr heb Wifrau ar agor bob dydd Sadwrn ac ar adegau eraill trwy apwyntiad. Cyrhaeddodd nifer o ymwelwyr, rhai ohonynt yn teithio o bell i weld yr arddangosfa. Daeth rhai ohonynt â rhoddion, megis y Radio R900






Mewn rhodd o lyfrau technegol o'r 1960-1970au, daethom ar draws stampiau, yn dathlu dyddiadau arbennig.

**Canrif y BBC**

Mae Hydref 2022 yn nodi canrif ers cychwyn y BBC. Yn y flwyddyn hon, ffurfiodd y Swyddfa Bost Gyffredinol y *Cwmni Darlledu Prydeinig,* consortiwm o weithgynhyrchwyr a delwyr mewn offer di-wifr, i drefnu datblygiad gwasanaeth darlledu ar gyfer y Deyrnas Gyfunol. Diddymwyd hwn yn hwyrach a throsglwyddwyd ei asedau i'r *Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig*. Sefydlwyd y BBC gan Siarter Frenhinol yn 1927 ond, nid oedd statws rhanbarthol i Gymru yn y ddarpariaeth. Bu nifer o fudiadau, gan gynnwys Y Blaid Seneddol Gymreig, Prifysgol Cymru a Phlaid Genedlaethol Cymru yn galw am Ranbarth Cymreig, a gwireddwyd hyn yn y pen draw yn 1935.

Dyma beth ddywedodd David E. Jones, sylfaenydd amgueddfa Gwefr heb Wifrau, yn ei lyfr "Wireless in Wales, Gwefr heb Wifrau", am arwyddocâd sefydlu'r BBC i Gymru,

*"I bob pwrpas fe ddaeth y BBC i fod y peth agosaf a oedd gan Gymru i sefydliad gwleidyddol Cymreig. Fe gynhaliodd yr ymwybyddiaeth genedlaethol a dod â'r darnau gwahanol o'r jig-so Cymreig at ei gilydd. Heb y Rhanbarth y tebygolrwydd ar gyfer Cymru yw y byddai wedi colli ei hunaniaeth genedlaethol ac esblygiad ar ranbarth yn debyg iawn i Swydd Efrog gyda'i Ridings gweinyddol. Yn anochel, fe fyddai hyn wedi arwain at Lannau Mersi estynedig yn y gogledd a Glannau Hafren estynedig yn y de yn cael eu gwahanu gan Ganolbarth Lloegr yn ymestyn tua'r gorllewin."*

(Os ydych am ddarllen mwy, mae copïau o'r llyfr ar gael am ddim yn yr amgueddfa.)






Parhaodd y darlithoedd misol ar Zoom, a chlywsom am *Ffynhonnau Carpiau Cymru* gan Howard Huws, *Thomas Edison* gan David Crawford a *Dewi Sant a Chwedlau Eraill* gan Pat Williams.

Cawsom gyfle i gymdeithasu gyda ffrindiau a chefnogwyr dros baned a chacen mewn gardd, a chodi rhyw £300 i'r coffrau ar yr un pryd.

Cawsom ddiwrnod llwyddiannus iawn yn Sioe Dinbych.

Bu'r cyfryngau cymdeithasol yn brysur hefyd. Dangoswyd llun y stampiau ar Trydar, ac o fewn 24 awr roedd 1,000 o bobl wedi bod yn ei astudio.

**Digwyddiadau'r dyfodol**

**Y Tri Cyprian** ar Hydref 21ain, yw'r ddarlith Gymraeg ar -lein nesaf yn ein cyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Bydd Geraint Jones, awdur, cerddor ac un o brif arweinwyr Canolfan Hanes Uwchgwyrfai ym Mhen Llŷn, yn sôn am dri 'Cyprian' gwahanol iawn i'w gilydd, â'r tri yn cynnwys hanes am 'ferthyrdod' ac aberth o ryw fath. Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael. Ewch i wefan Cwmulus neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru.

Bydd **Noson Gwis** yn Eirianfa ar Hydref 29ain.

**Ymweld â'r Amgueddfa**

Yn ystod y gaeaf, pan fydd yr Amgueddfa ar gau, bydd yn bosib trefnu apwyntiad i ymweld â'r Amgueddfa ar unrhyw adeg. Cysylltwch â **gwybod@gwefrhebwifrau.cymru**

Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

# Ond Syr, fedar mam ddim fforddio hynny

Ar ôl haf hirfelyn tesog ac ofnadwy o boeth, mae bywyd wedi dychwelyd i'w rigol arferol i'r mwyafrif ohonom, yn arbennig felly i'n plant a'n hieuenctid.
I lawer ohonyn nhw mae wedi golygu trosglwyddo i ysgol newydd neu goleg neu gychwyn mewn ysgol am y tro cyntaf – profiad y mae rhai yn ei fwynhau tra bod eraill yn bryderus yn ei gylch.
Rhaid imi gyfaddef mai un o'r rhai pryderus fûm i ar hyd y daith. Yn wir, roedd yna adegau pan oeddwn i'n casáu'r sefydliadau hynny â chas perffaith. Ni fu derbyn bonclust gan brifathro pan oeddwn i'n wyth oed - am beidio â'i alw fo yn Syr - fawr o gymorth imi gymryd at fyd addysg.
Yna, yn yr ysgol uwchradd roeddwn i'n casáu'r gwersi Gwaith Coed am na allwn i lyfnhau'r darn o bren yn unol â chyngor yr athro caredig. Roedd gen i hefyd ofn yr athro hwnnw a oedd yn cau caead y ddesg ar ben unrhyw fachgen nad oedd yn cael gafael ar y llyfr cywir mewn da bryd o blith y pentwr o lyfrau ysgrifennu a llyfrau testun a orweddai yn flêr o fewn y ddesg.
Yna fe fûm i mewn coleg yng Ngogledd Lloegr am ddau gyfnod o wyth wythnos, a theimlo hiraeth am y tro cyntaf yn fy mywyd - er fy mod i'n dod adref bob nos Wener. Roedd yna awyrgylch digalon nos Sul ar y trên wrth fynd o Fangor tuag at Gaer, a gwyddwn yn iawn na chlywn i air o Gymraeg tan yn hwyr y nos Wener ganlynol.
Ac yna ar ôl ymuno â'r frawdoliaeth, sylweddoli nad oedd bywyd athro yn fêl i gyd wrth droi a throsi bob nos Sul yn meddwl am yr hyn oedd yn wynebu rhywun y bore canlynol.
Sylweddoli bryd hynny nad oedd fy mam ymhell ohoni gyda'i geiriau cysurlon pan oeddwn i'n blentyn dagreuol, "Dydy rhai o'r athrawon ddim yn hoffi mynd i'r ysgol 'chwaith, wsti."
Yn sicr, ni fu nifer fawr o athrawon yn hoff o wynebu fore Llun yn ystod cyfnod Covid. A fyddai ganddyn nhw ddosbarth yn y cnawd o'u blaenau neu ai dysgu'r disgyblion dros y we fyddai raid iddyn nhw... neu hyd yn oed gyfuniad o'r ddau ddull?

Dyma oedd cyfnod heriol yn wir, a rhaid llongyfarch ein hathrawon am gyflawni'r dasg. Go brin y byddwn i a'm cenedlaeth wedi dod drwy'r ddrycin.
(A dyna fi wedi plesio dau athro o leiaf!)
Ni fyddai'r golofn hon yn gyflawn, fodd bynnag,heb gŵyn o ryw fath.
Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd nifer o ysgolion uwchradd Dyffryn Clwyd yn newid lliw gwisg ysgol eu disgyblion gan gyflwyno mewn sawl achos y "blazer" ond i grybwyll gan roi straen ariannol ychwanegol ar deuluoedd sy'n stryffaglio'n galed i gael dau ben llinyn ynghyd.
Oedd, roedd "blazer" yn rhan orfodol o'n gwisg ysgol ni dros hanner canrif yn ôl gan mai safonau ysgol ramadeg oedd i'r ysgol yn y bon er ei bod hi'n ysgol gyfun.
Ond gan fod y mwyafrif o ddisgyblion yn ymadael yn 15 oed y dyddiau hynny a ninnau i gyd yn dod o deuloedd cyffredin, doedd fawr neb yn gwisgo " blazer" ym mlynyddoedd hynaf yr ysgol.
A doedd neb yn cael ei gosbi am gicio yn erbyn y tresi, ac oedd, roedd gennym feddwl y byd o Ysgol Brynrefail.
Ydy, mae'r "blazer" yn edrych yn dda, ond onid ydy' gallu defnyddio'r arian i roi bwyd ym mol y disgybl yn bwysicach? Fel y buasai'r hen Ifans y Tryc wedi'i dd'eud,"Priorities, hwnna ydy o."

**Stan Lyall**


Y BIGWN

# YN EISIAU!

Aelodau newydd i ymuno â thîm golygyddol bychan Y Bigwn, i ddechrau o fis Hydref 2022.
Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn hanesion a chymeriadau lleol?
Ydych chi eisiau cyfrannu mwy i'r gymuned leol?
Ydych chi awydd sialens newydd?
Os ydi'r ymateb yn bositif i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, cysylltwch â ni yn Y Bigwn am fwy o wybodaeth.
Ebost – gwybod@ybigwn.cymru neu ybigwn@hotmail.co.uk
Stan Lyall (01745 813659) neu
Sian Rogers (01745 813368)



/gwasg.com PRINT

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint


## Atebion GORFFENNAF 2022

**Ar Draws :**
7. Brasgamwr
8. Cyfle
10. Ariannin
11. Statws
12. Trol
13. Awyrgylch
15. Gwastad
17. Gwarchae
20. Halibalw
22. Lego
25. Edwino
26. Cofrestr
27. Cwyno
28. Comisiynu

**I Lawr :**
1. Eryri
2. Esgair
3. Magnolia
4. Gwinllan
5. Hynafgwr
6. Clyweliad
9. Aswy
14. Gwrandawr
16. Seibiant
18. Wylofain
19. Gwactod
21. Agos
23. Gwegil
24. Stanc

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR HYDREF 2022



**Ar Draws :**
9. Dynwarediad
10. Awdur drama am Virginia Woolf
11. Tref ar lan Llyn Tegid (1,4)
12. Yn ymwneud â lluniau o olygfeydd
13. ee Kamala Harris (2,5)
14. Chwaer Bendigeidfran
16. Ystafell i gynnal cyngerdd?
18. “Llwytha’r ... cyn ei saethu” meddai Candelas
19. Pennill cynganeddol o bedair llinell unodl
21. Pentref ger Dolgellau
22. Prifddinas Gogledd Iwerddon
24. Cychwynnol
26. Nef a ....., tir a môr
27. ..... blewog sydd gan leidr
28. Gosod trefn ar rywbeth

**I Lawr :**
1. Adroddiad am ddigwyddiadau diweddar
2. Gweithdy gof
3. Arweiniad sut i gyflawni tasg
4. Nid sefyll
5. Aeth nifer o rhain o’r Banna i werthu fala (4,1,3)
6. Cynhyrchu cerddoriaeth â’r llais
7. Fel hyn yr adnabyddir yr Eisteddfod Genedlaethol weithiau (1,7)
8. Chwalwyd mur trwy’r ddinas hon yn 1989
15. Rhai sy’n codi tai, ysgolion neu ysbytai
17. Person ar ben ei hun
18. Un sy’n rhoi tystiolaeth yn erbyn
20. Nid wedi ei greu gan ddyn
21. Lle y gwneir cwrw
22. Dawns Sbaenaidd neu siaced fer
23. Ysbrydoledig
24. Oddi tanodd





# Sgwrs â Celyn Llwyd Cartwright



**Beth wnaeth i ti fod eisiau bod yn y cynhyrchiad yma?**
Mae Cwmni Theatr Bara Caws wedi bod yn gwmni drama blaengar yng Nghymru ar hyd y blynyddoedd, a dwi'n amau ei bod hi'n freuddwyd i nifer o actorion Cymru cael bod yn ran o unrhyw gynhyrchiad. Felly, pan ddoth y cyfle, doedd dim amheuaeth ond i dderbyn y swydd yn syth! Bonws enfawr oedd y ffaith mai Un Nos Ola Leuad oedd y ddrama.

**Pa gymeriad wyt ti?**
Dwi'n chwarae rhan Jini Bach Pen Cae, ymhlith nifer o gymeriadau eraill fel y Nain, Mam Moi ayyb. Mae yna ymdeimlad o waith ensemble cryf o fewn y ddrama.

**Beth sydd hawsaf chwarae cymeriad neu fod yn ti dy hun ar lwyfan?**
Chwarae cymeriad...heb os!




**THEATR BARA CAWS yn cyflwyno**

**'UN NOS OLA LEUAD'**


Ers iddi gael ei chyhoeddi yn 1961 mae Un Nos Ola Leuad wedi cydio yn nychymyg cenedlaethau o ddarllenwyr Cymraeg ac mae'n nofel sy'n parhau i ennyn ymateb ysgubol yn rheolaidd. Bu i Bara Caws deithio'r addasiad llwyfan hwn gyntaf yn 2011 ac yn falch iawn o gael gwneud hynny eto eleni. Betsan Llwyd sy'n gyfrifol am y sgript sy'n seiliedig ar waith gwreiddiol gan Maureen Rhys a John Ogwen, ac mae'r fersiwn hon wedi ei chynnwys ar gwricwlwm lefel 'A' Drama CBAC ar hyn o bryd.
Gwaith ensemble fydd y cyflwyniad gyda'r cast yn cynnwys Owen Alun, Owen Arwyn, Celyn Cartwright, Siôn Emyr, Cedron Siôn a Manon Wilkinson.

Mae'r ticedi ar gyfer noson Theatr Twm o'r Nant bellach wedi gwerthu.

**Ydi'r cynhyrchiad yma yn dod a rhywbeth newydd i'r drama?**
Mae gweledigaeth Betsan Llwyd (cyfarwyddwraig) yn un sydd wedi cadw'n driw at eiriau a naratif Caradog Pritchard ond wedi rhoi twist clyfar iawn i'r holl ddrama. Dwin edrych ymlaen yn ofnadwy i bobl cael gweld y sioe.

**Beth yw'r peth olaf wyt ti'n wneud cyn camu ar y llwyfan?**
Ma' gan bob sioe ei ofynion unigryw, ond fel rheol, fe wna'i redeg llinellau, cymryd eiliad fach o lonyddwch, anadlu, a chamu ymlaen ar y llwyfan!

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk





Trefnwyr Angladdau Annibynnol
R.W.Roberts a'i Fab
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
NATIONAL SAIF INDEPENDENT FUNERAL DIRECTORS

# Ysgol Glan Clwyd



Mrs Sian Alwen— y Pennaeth Mewn Gofal



Rhai o ddisgyblion newydd blwyddyn 7

Ar ddechrau tymor newydd croesawn Mrs Sian Alwen i'w swydd newydd fel Pennaeth Mewn Gofal ar yr ysgol. A hithau'n aelod o'r staff ers un mlynedd ar hugain, mae Ysgol Glan Clwyd a'r Gymraeg yn agos iawn at galon Mrs Alwen. Heb os, dyma ddechrau ar gyfnod cyffrous arall yn hanes yr ysgol.

Hyfryd ar ddechrau tymor yw croesawu ein disgyblion arbennig yn ôl i'r safle, ac, wrth gwrs, ein staff cefnogol a gweithgar. Eleni mae nifer fawr o staff newydd wedi dechrau yn yr ysgol ac mi estynnwn groeso mawr iddyn nhw i deulu hapus Ysgol Glan Clwyd.

Staff Addysgu

Sian Teleri Davies - Cymraeg

Ceri Louise Price - Saesneg

Owen Shiel - Mathemateg

Jane Cato - Ffrangeg

Mari Hughes- Celf

Einir Wyn Williams Addysg Gorfforol

William Opie – Addysg Gorfforol

Elena Charlton-Flemming – Saesneg

Joshua Cedri Wynne - Gwyddoniaeth

Rhun Morris - Cyffredinol

Alis Lynch - Cyffredinol

Staff Ategol

Llywela Barry - Cymhorthydd Gweinyddol a Threfn

Caryl Williams - Rheolwr Cyllid - wedi dechrau mis Awst

Gwyn Lloyd Jones - Technegydd a chyfieithydd

Megan Bickerstaff - Goruchwyliwr Gwersi

Roedden ni hefyd yn falch iawn o ganlyniadau ein disgyblion eleni. Llwyddodd ein disgyblion ym mlwyddyn 13 i gyrraedd eu cyrchfannau o ddewis ac fe ddymunwn yn dda iawn iddyn nhw wrth iddyn nhw barhau ar eu gyrfaoedd addysgol neu droi i fyd gwaith. Ymfalchiwn yn eich llwyddiant i gyd a diolchwn i chi am eich cyfraniad gwerthfawr i fywyd yr ysgol dros y saith mlynedd ddiwethaf.

Yr un oedd hanes blwyddyn 11. Cafwyd canlyniadau da a oedd yn caniatau i'n disgyblion ddychwelyd yn ôl i'r chweched dosbarth. Cafwyd dau ddiwrnod anwytho gwirioneddol dda efo blwyddyn 12 ac maen nhw yn barod rwan i ddechrau ar eu cyrsiau Uwch Gyfrannol. Dymunwn yn dda iddyn nhw ar eu cyfnod newydd fel disgyblion aeddfed yn Ysgol Glan Clwyd.

Prif Ddisgyblion

Llongyfarchwn y chwe disgybl o flwyddyn 13 ar gael eu hethol yn brif ddisgyblion am eleni. Siriol Ousey a Carwyn Pierce fydd yn arwain ar y gwaith gydag Awen Evans, Elin Chan-Gizzi, Finlay Mills ac Elias Jones yn ddirprwyon.

Ar ddechrau tymor fel hyn edrychwn ymlaen i gydweithio gyda'n gilydd a sicrhau pob cyfle posib i ddisgyblion ffynnu yma.

Mi fydd hi'n fendigedig cael rhannu'r newyddion yn lleol gyda chymuned yr ysgol ac edrychwn ymlaen



Prif Ddisgyblion

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

## Brodor o Drefnant yn ennill gwobr genedlaethol Mudiad Meithrin



Mae Emily Ellis sy'n ddisgybl yn Ysgol Glan Clwyd wedi ennill gwobr arbennig Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam sy'n cynnig hyfforddiant cydnabyddedig wedi'i achredu i bobl sydd am weithio mewn sefydliadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar gan drefnu lleoliadau gwaith i ymgeiswyr mewn Cylchoedd Meithrin, dosbarthiadau meithrin a meithrinfeydd ledled Cymru.

Mae Emily Ellis o Drefnant wedi ennill Dysgwr y Flwyddyn am ei gwaith yng Nghylch Meithrin Bodawen, Dinbych.

Wrth ddyfarnu'r wobr iddi, meddai Dirprwy Reolwr Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam, Emma Jones:

*"Mae hi mor braf gallu gwobrwyo a dathlu gwaith caled unigolion fel Emily. Bydd ei phrofiad a'i hymdrech yn ysbrydoliaeth i eraill gobeithio".*

# Cornel y Plant

Y BIGWN

## Rhestr Wirio'r Hydref



| | |
|---|---|
| ☐ concer | ☐ dail melyn |
| ☐ castan | ☐ ffyngau |
| ☐ wiwer | ☐ coeden heb ddail |
| ☐ dail brown | ☐ aeronen |
| ☐ dail oren | ☐ côn pinwydd |


## Chwilair Calan Gaeaf

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| s | u | n | f | o | s | o | n | h |
| o | y | d | ch | n | u | s | a | u |
| m | c | y | g | y | n | m | d | h |
| b | a | w | v | p | y | l | y | ch |
| i | g | s | f | o | r | b | r | e |
| n | y | r | h | c | ch | d | b | r |
| w | s | a | ch | y | y | w | s | g |
| ch | o | n | q | r | d | p | y | s |
| o | p | l | t | p | t | a | o | l |

ysbryd
arswyd
sgrech
sombi

nos
ofnys
dychryn
pry copyn

GWNEWCH…….



Draenog Dail




Adnoddau ac Offer
Siswrn
Glud PVA
Pensilau lliw neu paent lliwiau'r hydref
Casgliad o ddail yr hydref

### Cam 1




Ewch allan i gasglu dail yr hydref. dail pigog yw'r gorau oherwydd mae draenogod yn anifeiliaid bach pigog iawn

### Cam 2



Yn ofalus, torrwch allan templed y draenog

### Cam 3



Defnyddiwch y pensiliau lliw neu paent lliwiau'r hydref i liwio corff, wyneb a thrwyn y draenog


### Cam 4




Yn olaf, gludwch y dail yr ydych wedi casglu ymlaen i'r draenog

## Difyrru Darllenwyr Dinbych a'r fro!

Ydych chi yn hoff o adlonni? Beth am yrru unrhyw ddarn o waith creadigol megis darn o farddoniaeth neu ryddiaith er mwyn difyrru darllenwyr Dinbych a'r fro. Gyrrwch eich gwaith i'r e-bost canlynol: gwybod"ybigwn.cymru.





# Difyrion Digidol

Do mi gafwyd eisteddfod anhygoel yn Nhregaron, gyda'r holl ardal wedi rhoi croeso arbennig i weddill Cymru drwy gydol yr wythnos. Yr oedd yn helpu fod y tywydd yn braf ac fe roedd yr haul yn tywynnu bron yn ddidor ar faes braf y Brifwyl.

Ymhlith yr rhestr hir o lwyddiannau eleni, mae'n rhaid cynnwys ap yr Eisteddfod 2022 fel llwyddiant ysgubol a oedd yn llywio pobl yn effeithiol i'r degau o ddigwyddiadau yn ddyddiol ar y maes.

Dyma enghraifft wych o sut mae posib defnyddio technoleg yn hawdd a chyfleus i'ch tywys i'r lle cywir, a dyma'r tro cyntaf i'r Brifwyl ddefnyddio'r ap yn ei ffurf bresennol. Er hynny, mi roedd hi'n amhosib mynychu bob dim gan fod cymaint o bethau ymlaen gyda rhai yn digwydd ar yr un pryd. Ond heb os, roedd yr ap wedi llwyddo mewn sawl ffordd – ei fod yn hawdd i'w ddefnyddio, yn cysylltu'r defnyddiwr yn rhwydd, yn gyfleus gyda'r llu o ddigwyddiadau. Yn wir, dyna nod ac egwyddor technoleg sef i hwyluso'r llwybr rhwng defnyddiwr a'i ddiddordebau gwahanol. Ac mae ap fel hwn, yn rhan annatod o'r jigso i sicrhau fod pobl yn defnyddio technoleg, ond yn cael budd personol ohono.

Yn ystod yr wythnos bûm yn rhan o sesiwn Bro360 yn trafod creu ap i hybu digwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg led-led Cymru. Ac yn sicr, mae ap yr Eisteddfod Genedlaethol yn fodel ardderchog o'r hyn y gellir ei efelychu dros Gymru a thu hwnt ar gyfer digwyddiadau Cymraeg. Mae gwir angen hyn er mwyn cynorthwyo'r ymdrech i rymuso cymunedau a chyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

I gydfynd â'r dechnoleg, mae'n rhaid cael pobl sy'n meddu ar y sgiliau hanfodol i helpu eraill, ac mae ein cymunedau ddibynnol ar wirfoddolwyr. Er nad ydynt yn cyfri' eu hunain fel 'gwirfoddolwyr' fel a ddywedodd Iwan Hywel o Fenter Iaith Hunaniaith mewn cyfarfod yn ddiweddar, mae llawer o siaradwyr Cymraeg yn gweld eu hunain 'yn helpu allan' yn hytrach. Ar y dydd Iau yn Nhregaron, cafodd cynllun Gwirfoddoli a'r Gymraeg ei lansio gan Hunaniaith sy'n anelu i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n gwirfoddoli mewn sawl maes gwahanol (https://gwirfoddolicymru.net/cymraeg) O ran Cymunedau Digidol Cymru, yr ydym yn awyddus i hyfforddi mwy o bencampwyr digidol yn y Gymraeg i wirfoddoli trwy helpu eraill gyda thechnoleg. Heb gymorth wyneb cyfarwydd neu anwyliaid, ni fydd y bobl sydd wedi eu hieithrio o dechnoleg fyth yn gallu defnyddio ffôn clyfar neu dabled. Dyna'r ffaith anffodus, ac felly mae'n bwysig fod yna wirfoddolwyr digidol yn ein cymunedau i estyn allan i'r bobl sydd angen cymorth gyda thechnoleg.

Mae cwmni Eryri Cydweithredol yng Ngwynedd yn datblygu tîm o wirfoddolwyr digidol lleol i gefnogi unigolion yn eu cymunedau trwy gynllun E-sgwrs gan gynnal caffis cysylltu mewn gwahanol rannau o Wynedd fel modd i gymdeithasu, ond hefyd dderbyn cymorth gyda'u tabledi neu ffôn clyfar. https://eryricoop.cymru/gwirfoddoli-volunteering/

A'r wers o'r Eisteddfod a thrwy gynllun Eryri Coop yw ei bod yn bwysig fod y sgiliau digidol sylfaenol yn bodoli ymhlith y boblogaeth, tra bod y dechnoleg hefyd yn hygyrchol i bawb o bob oed.

Cysylltwch gyda mi deian.apRhisiart@wales.coop os hoffech gymorth digidol, cyngor neu fenthyg tabledi neu eisiau trefnu hyfforddiant gyda Cymunedau Digidol Cymru.

Deian ap Rhisiart

## Mae'r Eisteddfod yn ei Hôl – Dydd Gwener Hydref 21ain, Neuadd Bentref Llandyrnog

Pwy sydd eisiau canu, adrodd, arlunio, barddoni neu lunio graffeg gyfrifiadurol, ac, efallai, ennill ychydig o bres poced? Dyma'ch cyfle chi os ydych chi rhwng 3 a 18 mlwydd oed!!

Ar ôl tair blynedd hir a thrafferthus, mae'n Heisteddfod fach leol ni yn Llandyrnog yn ôl. Dyma un o'r digwyddiadau yn y pentref sy'n dangos ein diwylliant ar ei orau. Gobeithio y bydd plant a phobl ifanc ysgolion lleol y fro yn tyrru draw, fel arfer, i gystadlu ar lwyfan Neuadd Llandyrnog. Bydd gwobrau hael i'w cael mewn gwahanol gystadlaethau - llefaru, canu, canu cerdd dant, a chwarae offeryn cerdd. Bydd cystadlaethau cartref hefyd i bob oedran- llenyddiaeth, barddoniaeth, arlunio, a graffeg gyfrifiadurol.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod gyntaf yn Llandyrnog fis Mawrth 1958, a hynny drwy'r pnawn tan hwyr y nos. Swllt oedd pris mynediad yn y pnawn, ac roedd y cystadlaethau llwyfan yn debyg iawn i rai eleni. Ond, roedd mwy o amrywiaeth yn y cystadlaethau gwaith cartref amser hynny ee. Dros 16oed Gwaith Pren, - gwneud ysgol bren dim mwy na 5 troedfedd o uchder! A dan 16 - i ferched( yn unig!) - gwnïo "underslip". Ers hynny, mae'r Eisteddfod wedi mynd o nerth i nerth, diolch i wirfoddolwyr gweithgar, noddwyr hael a chefnogaeth wych gan ysgolion y fro ar hyd y blynyddoedd.

Peidiwch â phoeni gormod am astudio'r Rhaglen eleni os ydych chi am gystadlu ar y llwyfan! Ar ôl cyfnod mor hir, mae aelodau'r Pwyllgor wedi rhoi rhwydd hynt i gystadleuwyr ddewis eu darnau llefaru, canu, canu cerdd dant ac offerynnol eu hunain. Daw hyn â mwy o blant fyth, gobeithio, i gymryd rhan eleni, a datblygu hunan hyder. Gobeithio y gwelwn ni hefyd o leiaf 500 o wahanol ddarnau gwaith cartref - arlunio, llenyddiaeth a graffeg gyfrifiadurol fel yn 2019.

Felly cofiwch y dyddiad Hydref 21ain am 5 o'r gloch yn Neuadd y Pentref, Llandyrnog.

Am gopi o raglen yr Eisteddfod neu unrhyw ymholiad arall, cysylltwch â'r ysgrifenyddion Iona Davies – ionapari@hotmail.co.uk, ( 01824790484)neu Lona Meleri lonamel@yahoo.co.uk (07734408608)



# Nid Chwarelwr ydwyf i Rhan 7

**Nid Chwarelwr ydwyf i Rhan 7**
**Seithfed diwrnod o daith Llwybr y Llechi**
**Cerdded o Benmachno i Gapel Curig drwy Betws y Coed**

**Penmachno i Betws y Coed**
8.6km, 5.3milltir

**Rhaeadr Y Graig Lwyd/Conwy Falls**

Pwy biau rhaeadr? Pwy gafodd hawl i feddiannu dŵr afon? Pwy feiddiodd alw Rhaeadr Y Graig Lwyd yn Conwy Falls? O leiaf nid yw'n Conway! Mae lliw paent glas golau Clough Williams-Ellis ar yr adeilad fel yng Nghroesor. Mae yn amlwg ei fod wedi pwrchasu batch go helaeth o baent lliw glas glan môr un tro. Mae ei arogl ef ar y bensaerniaeth hefyd.

Pwy sy'n gofyn am arian i weld dŵr a rhaeadr? Pwy sy'n hawlio a chodi'r pris? Pwy sy'n peidio rhannu y pethau gorau? A pheidiwch â sôn fod angen cynnal a chadw- oni edrychodd afonydd ar ôl eu hunain erioed.

Dipyn gwahanol i Ffynnon Eidda ar ben y Migneint rhwng Cwm Penmachno a Llan Ffestiniog, dŵr am ddim sydd yno, dŵr i dorri syched, dŵr i bawb. Dŵr i oeri injan yr hen Hillman Minx pan oedd ar ei

## Ffos Anoddun/ Fairy Glen

Tâl o bunt. Dim diddordeb.

**Betws y Coed i Gapel Curig**
9.5km, 5.9milltir

**Betws y Coed**

Ar ddydd Mercher, diwrnod braf
Mae pobol yn crwydro ddiwedd haf,
Yn chwilio rhywbeth, tybed be?
A'i tawelwch neu bwrlwm y lle?
Bwyta brechdanau, eistedd i lawr
Cerdded yn ôl ac ymlaen am awr,
Dianc o rywle, mynd am dro,
Darganfod coed mynyddig a bro.
Mae i bawb ei reswm dros fynd a dod
Ond peidiwch â gofyn: "Be sy'n bod?"
Mae pawb yn cario ei lais ei hun
A chrwydro'n gannoedd ond fesul un,
Yn cario baich ond eto'n rhydd
Dyna beth yw crwydro'r dydd,
Ond pawb dywedwch beth yw'r rhaid
I bobol gorlannu yn un haid,
Fel defaid sy'n dilyn yr haul erioed
Yng nghwmni ei gilydd ym Metws y Coed.
Gwell gen i fynd i'r bryniau pell
A chroesi corsdir, "Pa beth sydd well?
Pam nad yw'r dorf i mi'n apêl
Nid wyf fel gwenyn at bot mêl,
Y blodau gwyllt sy'n apelio mwy
Oherwydd tawelwch eu heddwch hwy
Ac y mae cwmniaeth mwya'r daith
Yng ngwacter yr eangderau maith.
O Betws y Coed rhaid yw ffoi
A gadael rhai yno i dîndroi,
Nid pasio amser wyf, myn Duw,
Rhaid teithio llwybrau eraill byw!

---

## Tŷ Hyll

Tŷ'n gartref, lle i sefyll – Tŷ Unnos,
Tŷ enwog ei arddull,
Tŷ am gân, tŷ ymgynnull,
Tŷ â gardd, tŷ hardd, tŷ hyll.

Wedi cael ar ddeall fod yma baned a chacen cyn ddruted ag unrhyw le, eistedd i lawr, llyncu paced o greision a phop. Edrych ar y cerrig mawr a'r simdde fawr lydan. Darllen ei fod yn Dŷ Unnos, wedi ei godi rhwng gwawr a machlud, dipyn o gamp. Pa ots am bensaerniaeth os mai y pwrpas oedd ei godi mewn diwrnod a chael lle i fyw? Wedi rhoi tân yn y simdde cyn machlud, gellid hawlio y tŷ a hawlio cylchedd tafliad bwyell o gylchedd tir o amgylch y tŷ. Yr unig beth dd'wedai oedd nad oedd y tafliad bwyell yn un da iawn gan mai byr yw'r ardd flaen ar gwr yr A55, beryg fod y taflwr wedi baglu.



Rhaeadr y Graig Lwyd



Y Tŷ Hyll

**Capel Curig**

Wedyn ymlaen dros dir a rhos yn baralel i'r A5 am rhyw 2 filltir ond ar diroedd eithaf mynyddig. Rownd y cefn a glanio ar ein pennau ynghanol Capel Curig ei hun.

**Arwel Emlyn**

# Ysgol Twm o'r Nant

Gyda gwyliau'r haf yn atgof pell yn ein meddyliau erbyn hyn, rydym wedi ymgartrefu yn ôl yn yr ysgol a bwrlwm llawen wedi llenwi yr adeilad unwaith eto. Croesawyd blant y dosbarth meithrin, a braf oedd eu gweld yn hapus yn dod i'w hysgol newydd. Dim deigryn i'w weld gan y plant ond llawer gan y rhieni a neiniau a teidiau oedd yn gorfod dweud ta ta ben bore. Croesawyd nifer o staff newydd hefyd, Mrs Bethan Jones yn arweinydd ac athrawes yn yr Uned dan 7, Mrs Enfys Jones yn uwch gymhorthydd yn yr Uned dan 5, Miss Sioned Williams a Miss Hannah Edwards fydd yn gweithio fel cymorthyddion yr uned dan 5 a Meithrin Mwy a Miss Siwan Davies a Miss Lliwen fydd yn gymorthyddion yn yr uned dan 7.

Rydym hefyd wedi ffarwelio a'n cogyddes Mrs Jane Jones ar ddechrau'r tymor. Bu Mrs Jones yn brif gogyddes yn yr ysgol am 9 mlynedd ac wedi llenwi boliau'r plant â bwyd blasus iawn dros ei chyfnod. Dymuniadau gorau i chi yn eich swydd newydd. Rydym yn croesawu Miss Lucy Lewis fel ein prif gogyddes nawr ac yn edrych ymlaen am fwyd bendigedig ganddi hithau hefyd. Croeso

Uned dan 5

Braf oedd croesawu y dosbarth Derbyn a Meithrin yn ôl i'r ysgol ar ddechrau mis Medi. Mae'n newid byd i nifer o'r plant, rhai yn dechrau ysgol llawn amser am y tro cyntaf ac eraill yn gwahanu o rieni am y tro cyntaf. Rydym mor falch o bob un ohonynt ac rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd on blaenau.
Ar nos Fawrth Medi'r 20fed agorwyd drysau'r uned i rieni'r Dosbarth Derbyn am y tro cyntaf ers yn hir iawn wedi Cofid. Roedd y plant yn ymfalchïo yn yr Uned wrth arwain eu rhieni o amgylch y dosbarthiadau/ ardal tu allan.



Ein thema tymor yma ydy 'Ffrindiau' ac mae'r plant wedi bod yn brysur gyda nifer o weithgareddau yn ymwneud â'r thema.
Bu'r plant yn brysur yn coginio crymbl afalau gan ddefnyddio'r afalau o'r ardd. Roedd yn flasus iawn!!!







J&G | Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
ACCA
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
Cymraeg

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Tachwedd**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn**
**Hydref 21**

Uned dan 7

Croeso mawr i ddisgyblion y tri dosbarth yn yr Uned Dan 7 eleni, dosbarth Gwyddfid, Miss Jones, dosbarth Botwm Crys, Mrs Jones a dosbarth Meillion Mrs Hughes a Mrs Williams. Mae pawb wedi ymgartrefu'n dda yn eu dosbarthiadau yn ystod yr wythnosau cyntaf ac yn brysur iawn ar waith gyda'u thema yr hanner tymor yma 'Gyda'n Gilydd'.








Uned dan 9

Braf oedd gweld pawb yn ôl ac yn gyffrous ar ôl gwyliau'r haf. Ein thema am y hanner tymor cyntaf yw Y Goedwig Wyllt. Cychwynom wrth ein traed gan edrych ar ba fath o goed oedd yn tyfu ar dir yr ysgol. Dysgwyd am y Boplysen arbennig sydd yn tyfu yng ngwelod y cae. Mae hon yn goeden brin iawn ac mi rydan ni'n lwcus iawn o'i chael yn tyfu yma yn Ninbych.

Dathlwyd Dydd Owain Glyndwr drwy wrando ar ei hanes a dysgu cân. Mwynhaodd y plant fartsio i'r curiad a dychmygu eu bod yn filwyr. Cyflwynwyd dystysgrifau hefyd i dri o'n hyrwyddwyr Cymraeg cyntaf yn yr uned. Byddwn yn gwobrwyo pob wythnos ac fel gwobr i bob un bydd gyfle iddynt fwynhau brecwast Cymreig cyn diwedd yr hanner tymor.















Uned 9

<u>Uned dan 11</u>

Mae hi'n flwyddyn newydd ac yn dymor newydd ar y disgyblion, ac wrth gwrs, mae'r disgyblion wrth eu bodd yn ôl yn yr ysgol i gael gweld eu ffrindiau a holl staff yr ysgol!
Y tymor hwn rydym am ddilyn y Thema 'Busnesau Dinbych' ac wedi bod ar daith o gwmpas y dref yn rhestru'r busnesau di-rif sydd gan Ddinbych i gynnig. Pwy fyddai'n meddwl bod gymaint yma? Cofiwch os oes ganddoch chi fusnes ac yn fodlon rhannu gwybodaeth neu unrhyw beth gyda ni, plîs cysylltwch gyda ni. Mae'r disgyblion wedi bod wrthi'n ysgrifennu llythyr i gael mynd i'w hoff fusnes lleol, felly cadwch olwg am y post.
Croeso mawr i holl ddisgyblion Yr Uned dan 11
llun tudalen 23

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | 2 | | | | 1 | 5 | 4 | 3 |
| | | 1 | | | | | | |
| | 5 | 4 | | | 2 | | 1 | |
| | | 6 | 2 | | 5 | 9 | 3 | |
| | | | 1 | | 7 | | | |
| | 4 | 5 | 8 | | 9 | | | |
| | 3 | | 4 | | | 1 | 9 | |
| | | | | | | 3 | | |
| 6 | 1 | 7 | 5 | 9 | | | 8 | 2 |

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Tymor cyffrous 2022-23 Cylch Llenyddol Glannau Clwyd

Bydd Cylch Llenyddol Glannau Clwyd yn cynnal rhaglen lawn o ddigwyddiadau misol yng Nghapel Trefnant y gaeaf hwn. Os ydych chi'n teimlo hiraeth wedi bwrlwm celfyddydol yr Eisteddfod, dyma wledd i'ch cadw i fynd dros fisoedd yr hirlwm!

Agorir y tymor am 7pm nos Lun, 3 Hydref, efo hanes y prifardd o Fostyn, Einion Evans, enillydd Cadair Eisteddfod Môn yn 1983, gan Norman Closs Parry, awdur colofn ddiwylliannol boblogaidd (ymysg pethau eraill!) Y Glannau.

Ddechrau Tachwedd (7/11/22) Penri Jones fydd yn dod atom i drafod 'Breuddwyd Syr Ifan', sef hanes sefydlu Urdd Gobaith Cymru gan mlynedd yn ôl. Fis Rhagfyr (5/12/22), ein gwestai fydd yr Athro Deri Tomos efo sgwrs am 'Kyffin, Coch a Melyn' a hanes ein hymgais i ddiffinio lliw a chipolwg ar sut mae'r llygad a'r ymennydd yn gweithio.

Ar 9 Ionawr, i roi cychwyn da i'r flwyddyn, bydd Elfyn Llwyd yn trafod 'Argraffiadau ar Fywyd Seneddol' sy'n siwr o fod yn noson hwyliog iawn. Yna, ar nos Lun gyntaf mis Chwefror (6/2/23), bydd Dr Eiddwen Jones, ein hawdur nofelau lleol, yn dod atom i drafod 'Yr Etifeddiaeth Goll'.



**CATalyst Systems - 01745 816611**
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**
**01745 812400**
**Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych**
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

## Cynghorwyr Sir Ddinbych
## Eich Cynghorwyr Plaid Cymru




Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir

PyBj



**GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf**
*Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau*
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
**Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332**
**e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk**



**MODURON Y GRAIG**
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

# DYRCHAFIAD I GRICEDWYR Y DREF

Bydd clwb criced y dref yn ôl yn chwarae yn Uwchgynghrair Gogledd Cymru y tymor nesaf ar ôl tymor hynod o lewyrchus eleni.

Yn wir, sicrhaodd y bechgyn ddyrchafiad gyda thair gêm yn weddill drwy ennill pob un o'u 19 gêm gyntaf.

Ar ben hynny fe wnaethon nhw sicrhau'r bencampwvriaeth yn yr Adran Gyntaf gyda 21 buddugoliaeth yn y 22 o gemau a chwaraewyd. Record anhygoel!

Cyrhaeddodd pedwar o'r batwyr – Jon Eccles, Harrison Jones, Sam Lewis a Gerallt Lyall – dros 500 o rediadau am y tymor gyda Gerallt yn dathlu sgorio dros naw mil o rediadau i'r clwb dros yr ugain mlynedd diwethaf.

Yn ychwanegol cyrhaeddodd pedwar o'r batwyr sgôr o gant a throsodd, sef Harrison Jones, Sam Lewis, Jon Eccles a Daniel Nixon.

Cafodd Harrison dymor hynod o lwyddiannus gan sgorio dros 200 o rediadau mewn un batiad yn erbyn Dolgellau a chipio 40 wicedi gyda'i fowlio troelli.

Fe gipiodd Joe a Sam Lewis dros 30 o wicedi yr un.

Tu ôl i'r wiced bu Andy Thomas yn gaffaeliad mawr i'r tîm gan fod yn gyfrifol am anfon 29 o fatwyr ar eu ffordd i'r pafiliwn.


Does yna ddim dwywaith amdani bu dychweliad Harrison ac Archie Sussex i'r clwb yn ffactor holl bwysig yn y llwyddiant eleni gan roi mwy o asgwrn cefn i'r batio ac amrywiaeth o safon i'r bowlio.

Ar un Sadwrn arbennig llwyddwyd cynnwys unarddeg o chwaraewyr yn y tîm cyntaf a ddaeth drwy rwydwaith ieuenctid y clwb – camp go arbennig ac eithaf unigryw yn hanes criced yng Ngogledd Cymru.

Cafodd yr ail dîm dymor di-fai hefyd gan sicrhau'r pedwerydd safle yn y Drydedd Adran. Dyna oedd safle'r tîm dan 11 oed hefyd yn eu hadran nhw.

Daeth y tîm dan 13oed yn ail a'r tîm dan 15 yn seithfed yn eu gwahanol adrannau.

Diddorol fu gweld nifer o chwaraewyr newydd yn ymuno â'r clwb, a braf fyddai gweld mwy o newydd ddyfodiaid y tymor nesaf yn yr adran hŷn a'r adran iau.




Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH
Siop leol yn gwerthu cardiau, anrhegion a phethau vintage
DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33






CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS


**Gwasanaethau i Chi**
- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**
- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall



Glyn Evans Autoclinic Ltd
Atgyweirio ceir ~ Accident repairs


Colomendy Industrial Estate, Dinbych LL16 5TA
Tel : (01745) 815141 repairs@evansautoclinic.com

## Vale Street Kitchen. Braf i'w gweld bod bwyty newydd wedi ei agor yma yn Ninbych.

Os ydych yn edrych am rywle delfrydol i gyfarfod ffrindiau gyda'r nos dros bryd o fwyd blasus dyma'r lle i chi. Awyrgylch braf a chyfforddus, gyda lle eistedd tu mewn a thu allan. Bwyd da a phris rhesymol. Er bod y fwydlen yn reit fychan mae digon o amrywiaeth o ddewis ar gyfer dant pawb.

Bwyty sydd yn arbenigo mewn bwyd Eidalaidd yw Vale Street Kitchen. Yn bennaf prydau sy'n cynnwys pasta ond hefyd yn cynnig amrywiaeth o brydau bach i'w cael ar yr ochr gyda'ch prif gwrs. Cofiwch archebu eich lle.



Pasta Pappardelle ragu cig eidion



Sglodion parmesan a oel truffle



Fusilli Pesto



Tagliatelle Madarch





Ysgol Twm o'r Nant Croeso mawr i holl ddisgyblion Yr Uned dan 11

**Dinbych yn Blodeuo** - Braint a syndod oedd derbyn gwobr Aur gan Gymru yn ei Blodau eleni, ynghyd â gwobr Enillydd categori "Tref", y ddwy am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd, oherwydd y gaeaf sychach nag arfer, y gwres a'r sychder ers hynny, a phrinder gwirfoddolwyr.
Amcanion Dinbych yn Blodeuo yw harddu'r dref er lles y gymuned ac ymwelwyr, a chefnogi bywyd gwyllt a'r amgylchedd.























